| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
|---|---|
| **DYDDIAD:** | **25 Chwefror 2022** |
| **TEITL:** | **CAIS AM AMRYWIAD O DRWYDDED EIDDO – Y MENAI, FFORDD CRAIG Y DON, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2BG** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am amrywiad o drwydded eiddo ar gyfer Y Menai ( Menai Court Hotel) Ffordd Craig y Don , Bangor LL57 2BG, gan Marstons PLC . Gwneir y cais mewn perthynas â cheisio'r hawl i ddiddymu rhwystrau ac amodau hanesyddol a roddwyd ar y drwydded mewn perthynas â defnydd yr ardd gwrw gyda'r nos

1.2 Mae'r drwydded gyfredol yn cynnwys amod fod defnydd yr ardd gwrw yn cael ei gyfyngu i yfed yn unig ( dim adloniant) rhwng 11:00 y bore a 21:00 yr hwyr yn unig.

1.3 Mae'r ymgeisydd yn cynnig amodau diwygiedig fel a ganlyn –

- Dim mynediad cyhoeddus i'r ardd gwrw ( ar wahân i fynediad er pwrpas gwacau mewn argyfwng ) rhwng 23:00 ac 08:00
- Ar gyfer cyfnod rhwng 21:00 a 23:00 pan fydd yr ardd gwrw mewn defnydd; gwiriadau i'w cynnal ai cofnodi pob awr , ac os fydd lefelau sŵn yn glywadwy uwch law lefelau sŵn cefndirol , yna cymerir camau i reoli'r sŵn a gynhyrchir oddi fewn i'r ardal ardd gwrw
- Fydd y cofnodion yn cael eu cadw am gyfnod o 6 mis ac ar gael i'r Heddlu a swyddogion Trwyddedu ar gyfer eu harchwilio.
- Yn ogystal , argymhellir fod geiriad Atodiad 2 yn cael ei ddiddymu fel nad oes amodau gorfodol ychwanegol yn cael eu cynnwys, ond yn hytrach cyfeiriad at yr adeg y bu i'r drwydded gael ei throsglwyddo yn 2005

1.4 Nid yw'r ymgeisydd yn gofyn am unrhyw newidiadau i'r oriau gweithredu , nac oriau gweithgareddau trwyddedig , nac unrhyw un o'r amodau eraill sy'n weithredol ar y drwydded. Cred yr ymgeisydd bydd yr amodau a gynigir yn galluogi'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus gael ei hyrwyddo.

1.5 Noder ar y cais , a welir yn y r atodiad, fod yr ymgeisydd wedi nodi fod cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio yn gallu cael ei gynnal tu mewn a thu allan.

1.6 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.7 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad gan breswylwyr cyfagos; manylion ym mhellach ymlaen yn yr adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr amrywiad arfaethedig yn llawn :

| **Trwydded Presenol/Current Licence** | | **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** | |
|---|---|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours** | | | |
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 00:30 | Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 00:30 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:30 | Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:30 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:30 | Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:30 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:30 | Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:30 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:30 | Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:30 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:30 | Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:30 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:30 | Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:30 |

**Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activites**

| **Ffilmiau/Films: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** | | **Ffilmiau/Films: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 | Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 | Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 | Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 | Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 |

| **Digwyddiadau Chwaraeon dan do/Indoor Sporting Events:** | | **Digwyddiadau Chwaraeon dan do/Indoor Sporting Events:** | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 | Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 | Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 | Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 | Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 |

| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** | | **Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors** | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 | Dydd Sul/Sunday | 11:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 | Dydd Llun/Monday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 | Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 | Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 01:00 |

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

**Perfformiadau Dawns/Performance of Dance:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

Gwneir cais i amrywio'r Drwydded Eiddo.

Pan roddwyd y Drwydded Eiddo yn 2005, gosodwyd amodau a oedd yn destun Apêl a ddaeth i ben ar 27 Ionawr 2006. Ers y dyddiad hwnnw, yn dilyn fformatiau amrywiol y Drwydded Eiddo, bu cyfnodau o amser pan bu i'r drwydded fod yn aneglur ynghylch darpariaethau ei weithrediad ond mae'r cyfyngiad hanesyddol sy'n cyfyngu ar ddefnydd yr ardd gwrw bellach yn cael ei nodi nid yn ôl cyflwr ond o ran yr amseroedd sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy er gwaethaf y ffaith nad yw'r defnydd yn dod o fewn y meini prawf hynny.

Gwneir cais i egluro'r sefyllfa ac ehangu'r defnydd posib o'r ardd gwrw.

Cynigir bod y datganiad a gynhwysir o dan gyflenwi alcohol ar safle ac oddi arno

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

**Perfformiadau Dawns/Performance of Dance:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 11:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

**Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 | - | 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 | - | 01:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 | - | 01:00 |

Application is made to vary the premises Licence.

On grant of the Premises Licence in 2005, conditions were imposed which were subsequently subject to an Appeal which was concluded on 27th January 2006. Since that date, following various formats of the Premises Licence, there have been periods of time when, the licence has been unclear as to the provisions of its operation but the historic restriction limiting use of the beer garden area are now set out not by way of condition but in respect of the times available for licensable activities despite, consumption not falling within that criteria.

Application is made to clarify the position and extend the potential use of the beer garden.

It is proposed that the recital contained under supply of alcohol on and off premises:

"Gardd gwrw (yfed yn unig) Dydd Llun i Ddydd Sul 11:00 i 21:00 awr"

Cael ei ddileu a chael amod o dan Atal Niwsans Cyhoeddus yn ei le:

"Ni fydd mynediad cyhoeddus (ac eithrio at ddibenion gwagio mewn argyfwng) o'r ardd gwrw rhwng 23:00 ac 08:00".

Cynigir bod y geiriad yn nodi yn glir gweithrediad a ganiateir yn yr ardd gwrw. Cynigir na fydd defnyddio'r ardd gwrw tan 23:00 yn arwain at niwsans cyhoeddus yn codi.

Mae ychwanegu amodau er mwyn monitro lefelau sŵn posibl fel a ganlyn.

"Am gyfnodau rhwng 21:00 a 23:00 pan fydd yr ardd gwrw yn cael ei defnyddio, dylid cynnal gwiriadau bob awr a'u recordio, pe bai lefelau sŵn yn glywadwy uwchlaw sŵn cefndir, yna cymerir camau i liniaru sŵn a gynhyrchir yn y ardal gardd gwrw "

"Dylid cadw cofnodion o'r fath am gyfnod o 6 mis ac ar gael i'w harchwilio i'r Heddlu a Swyddogion Trwyddedu."

Yn ychwanegol, cynigir y dylid dileu'r naratif o dan Atodiad 2 yn gyffredinol heb ddarparu unrhyw amodau y gellir eu gorfodi ond mae'n ymwneud yn syml ag amser trosi'r drwydded yn 2005.

Ni wneir cais i newid yr oriau gweithredu, yr oriau o weithgaredd trwyddedadwy na'r amodau a gymeradwywyd ar y drwydded. Credir, trwy ychwanegu'r ddau amod pellach, y gellir hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

*"Beer garden (drinking only) Monday to Sunday 11:00 to 21:00 hours"*

Be deleted and be replaced with a condition under Prevention of Public Nuisance as follows:

*"There shall be no public access (save for purposes of emergency evacuation) of the beer garden between 23:00 and 08:00".*

It is proposed that the wording clearly identifies the permitted operation of the beer garden. It is proposed that use of the beer garden until 23:00 hours will not result in public nuisance arising.

The addition of conditions so as to monitor potential noise levels are as follows.

- "*For periods between 21:00 and 23:00 when the beer garden is in use, checks to be undertaken at hourly intervals and recorded, should noise levels be audible above background noise then, steps shall be taken to mitigate noise generated within the beer garden area"*
- "Such records to be retained for a period of 6 months and be available for inspection to the Police and Licensing Officers."

Additionally, it is proposed that the narrative under general at Annex 2 should be deleted providing no enforceable conditions but simply relates to the time of conversion of the licence in 2005.

No application is made to alter the hours of operation, hours of licensable activity nor the conditions endorsed upon the licence. It is believed that with the addition of the two further conditions, the licensing objective of prevention of public nuisance can be promoted.

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn union yr un fath a'r drwydded gyfredol ar wahân i'r amodau ychwanegol a argymhellir uchod yng nghymal 1.3

Gweler manylion llawn y mesurau hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn atodlen weithredol y drwydded gyfredol yn yr atodiad i'r adroddiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Preswylydd lleol | Llythyr - gwrthwynebiad |
| Adran Gwarchod y Cyhoedd | gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Aelodau'r Cyngor | 2 e bost yn gwrthwynebu |

### 3.1 Preswylydd cyfagos

Derbyniwyd llythyr o wrthwynebiad gan breswylydd cyfagos ; gyda manylion cynhwysfawr yn tystiolaethu problemau sŵn sydd wedi bod yn gysylltiedig hefo'r eiddo ers 2001.Noder fod Marstons , y cwmni bragu sydd yn berchen ar yr eiddo ar y pryd wedi comisiynu adroddiad sŵn a gweithredu ar yr argymhellion i wneud gwelliannau sylweddol er mwyn rheoli ardrawiad sŵn yn deillio o weithgareddau tu mewn i'r adeilad .
Ymhellach , noder fod gwelliant wedi bod mewn rheolaeth sŵn yn dilyn y gwelliannau; ond fod ambell i enghraifft wedi bob lle y bu i broblem sŵn godi oherwydd nad oedd yr amodau perthnasol ar y drwydded ddim wedi bod yn cael eu gweithredu yn effeithiol. Noder fod problemau sŵn sylweddol wedi codi yn 2018 a bod y preswylydd a chymdogion eraill wedi ystyried dwyn achos cyfreithiol .
Mae'r preswylydd yn nodi mai defnydd yr ardd gwrw yw prif ffynhonnell problemau sŵn sydd wedi codi yn fwy diweddar ers i'r ardd gwrw gael eu cynnwys ar y drwydded. Mae'r preswylydd yn derbyn fod yn rhesymol disgwyl peth sŵn pan mae'r ardd gwrw yn cael ei ddefnyddio; ond yn nodi fod risg i lefel lefel sŵn gynyddu yn sylweddol wrth ganiatáu ymestyniad oriau defnydd yr ardd gwrw i 23:00; sydd yn debygol o wneud yr eiddo yn fwy poblogaidd gyda chwsmeriaid.
Mae'r preswylydd yn awgrymu y gellir ystyried cyfaddawdu ar yr oriau y caniateir defnydd yr ardd gwrw; yn ogystal â sicrhau amodau effeithiol ac addas ar y drwydded er mwyn rheoli'r sŵn. Argymhellir na ddylid caniatáu gweithgareddau trwyddedig megis adloniant cerddoriaeth fyw tu allan gan fydd hyn yn achosi niwsans sŵn. Argymhellir hefyd y dylid rheoli mynediad i'r ardd gwrw o ran niferoedd , a sicrhau lleoliad ardal benodol ar gyfer ysmygwyr. Noder nad yw'r amodau arfaethedig a gynigir gan yr ymgeisydd o ran gwiriadau bob awr yn mynd i fod yn sicrhau rheolaeth o'r sŵn.

### 3.2 Adran Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd llythyr yn datgan gwrthwynebiad i'r cais am amrywiad o'r drwydded ar sail fod y gwasanaeth wedi derbyn cwynion sŵn am yr eiddo; ac ar sail nad ydyw'r amodau newydd yr argymhellir yn mynd i fod yn rheoli sŵn yn ddigonol i sicrhau nad yw'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus yn cael ei danseilio

### 3.3 Heddlu Gogledd Cymru

Nid oedd tystiolaeth gan yr Heddlu i wrthwynebu’r cais; na gwneud sylwadau.

### 3.4 Aelodau lleol

Mae dau e bost gan yr aelodau lleol wedi eu derbyn yn gwrthwynebu’r cais ar sail fod yr ymestyniad oriau defnydd yr ardd gwrw yn mynd i achosi niwsans sŵn , a bod yr eiddo wedi ei lleoli ynghanol ardal breswyl. Mae un o’r aelodau yn cadarnhau fod cwynion sŵn wedi bod tra bod yr eiddo ym mherchnogaeth yr ymgeisydd; a bod hanes o ddiffyg rheolaeth gadarn wedi arwain at broblemau sŵn. Nid yw'r aelodau yn teimlo fod y mesurau a argymhellir yn mynd i arwain at reolaeth o’r sŵn.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn **gwrthod y cais** oherwydd y dystiolaeth o gwynion sŵn hanesyddol, y sylwadau a dderbyniwyd; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.